EUSCS04

Rheoli mynediad a threfniadau ar gyfer mannau cyfyng

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli sut mae eraill yn mynd ac allan o fannau cyfyng yn ogystal â'r trefniadau sydd eu hangen i'w cadw'n ddiogel pan maent yno. Mae man cyfyng yn unrhyw le, gan gynnwys unrhyw siambr, tanc, cerwyn, seilo, pwll, ffos, pibell, carthffos, ffliw, ffynnon neu fan tebyg lle ceir risg benodol y gellir ei rhagweld yn rhesymol oherwydd ei natur gaeedig. Gallai'r risgiau penodol hyn arwain at anaf difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i dân, ffrwydrad, nwy, mygdarthau, anwedd, diffyg ocsigen, lefelau cynyddol o hylif, mygu neu gaethiwo gan solidau sy'n llifo'n rhydd.

Nid yw mynediad i fannau cyfyng yn ofynnol yn y safon hon. Mae'n cynnwys rheoli'r gweithdrefnau cyn mynediad a mynd i mewn ac allan o fannau cyfyng, cynnal dulliau cyfathrebu ag aelodau'r tîm sydd mewn mannau cyfyng, monitro darlleniadau o gyfarpar, seinio'r larwm a throsglwyddo i dimau achub yn ystod sefyllfaoedd argyfwng.

Mae'r safon hon ar gyfer y cynorthwy-ydd diogelwch neu'r person wrth y llyw sy'n rheoli mynediad a threfniadau ar gyfer mannau cyfyng heb fynd i mewn iddynt.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gwneud yn siŵr bod gan aelodau'r tîm y cyfarpar angenrheidiol sy'n addas at y diben ac o fewn eu dyddiad gwasanaeth cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
2. gwneud yn siŵr bod yr holl ddogfennau iechyd a diogelwch perthnasol yn eu lle cyn caniatáu i bobl fynd i mewn i fannau cyfyng
3. cadarnhau bod yr holl systemau cyfathrebu wedi'u gosod, eu profi ac yn gweithio
4. gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r tîm yn deall y trefniadau a'r gweithdrefnau ar gyfer gweithio ac argyfyngau
5. gwneud yn siŵr bod systemau cyfathrebu mewn argyfwng a chyfarpar achub ar gael ac yn addas at y diben cyn caniatáu mynediad i fannau cyfyng
6. gwneud yn siŵr bod y cyfarpar awyru yn gweithio a bod amodau amgylcheddol eraill yn ddiogel cyn i dimau gwaith fynd i mewn i fannau cyfyng
7. gwneud yn siŵr bod aelodau'r tîm gwaith yn mynd i mewn ac allan o fannau cyfyng yn unol â gweithdrefnau
8. gwneud yn siŵr bod aelodau'r tîm gwaith yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) a chyfarpar diogelu ac argyfwng personol cyn iddynt fynd i mewn i fannau cyfyng
9. gwneud yn siŵr bod aelodau'r tîm gwaith yn defnyddio cyfarpar monitro a chyfarpar mynediad fel y nodwyd
10. cywiro unrhyw weithgareddau anghywir gydag aelodau'r tîm ar unwaith
11. cynnal parthau diogelwch o amgylch safleoedd gwaith; rheoli mynediad i bobl a cherbydau o amgylch pwyntiau mynediad
12. datrys unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig ag aelodau'r tîm yn mynd i mewn ac allan o fannau cyfyng neu weithio ynddynt gyda'r bobl ddynodedig
13. cymryd camau ar unwaith i gywiro unrhyw weithgaredd, cyfarpar ac amodau amgylcheddol anniogel
14. monitro darlleniadau amgylcheddol yn barhaus ac ymateb i wybodaeth o gyfarpar monitro
15. cyfathrebu ar adegau y cytunwyd arnynt gyda thimau gwaith ynghylch amodau amgylcheddol wrth bob cam o'r gwaith
16. cau pwyntiau mynediad a'u gwneud yn ddiogel ar ddiwedd y

gweithgaredd gwaith

17. goruchwylio'r gwaith o adfer cyfarpar ac offer o'r safle pan fydd y gwaith wedi'i orffen

18. cychwyn gweithdrefnau argyfwng a'u dilyn ar unwaith pan fydd digwyddiadau neu argyfyngau'n codi

19. cynorthwyo aelodau'r tîm gwaith i adael mannau cyfyng yn unol â gweithdrefnau diogelwch yn ystod digwyddiadau ac argyfyngau

20. rhoi gwybodaeth berthnasol i dimau achub mewn argyfwng yn unol â gweithdrefnau argyfwng

21. cofnodi digwyddiadau ac argyfyngau a rhoi gwybod am eu hamgylchiadau mewn systemau adrodd priodol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. prif egwyddorion a nodweddion mannau cyfyng cyfredol, iechyd a diogelwch a deddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol
2. y codau ymarfer a'r canllawiau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gweithio mewn mannau cyfyng
3. dyletswyddau a chyfrifoldebau personol fel y person wrth y llyw o dan ddeddfwriaeth
4. diffiniadau o sefyllfaoedd peryglus a gwahanol fathau o beryglon a chategorïau ohonynt
5. mathau o fannau a allai fynd yn gyfyng gan fod risgiau a nodwyd yno
6. peryglon, sylweddau a sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â mannau cyfyng
7. asesiad deinamig o sut i leihau'r risg o anaf i chi'ch hun, cydweithwyr a'r cyhoedd
8. camau y gellir eu cymryd i leihau risg hyd at lefel dderbyniol er mwyn i waith gael ei wneud
9. ymwybyddiaeth o sut gall sefyllfaoedd argyfwng godi mewn mannau cyfyng
10. dulliau a thechnegau defnyddio a gwisgo cyfarpar diogelu personol
11. cyfyngiadau cyfarpar a sut i nodi os nad yw'n gweithio
12. cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr ynghylch defnyddio cyfarpar ar gyfer mynd i mewn i fannau cyfyng a gweithio ynddynt yn ddiogel
13. cynlluniau dosbarthu mannau cyfyng
14. sut i nodi mannau cyfyng risg canolig a risg uchel
15. sut i baratoi cyfarpar mynediad, eu profi a'u defnyddio
16. pam mae'n bwysig bod yn effro i risgiau a pheryglon posibl ac amgylchiadau sy'n newid
17. eich cylch gorchwyl mewn cysylltiad â chymorth cyntaf mewn sefyllfaoedd argyfwng yn seiliedig ar asesiad risg
18. y gweithdrefnau a'r dulliau gweithio sy'n addas i ddosbarth y man cyfyng ac amodau lleol
19. y gwahanol fathau o gyfarpar monitro a'u cyfyngiadau
20. ffyrdd o fonitro amodau a gweithgaredd gwaith ac ymateb iddynt
21. pam mae'n bwysig datrys problemau yn ddi-oed ynghylch sut mae aelodau'r tîm yn mynd i mewn, gadael ac yn gweithio
22. dulliau cyfathrebu ar gyfer cadw mewn cysylltiad ag aelodau'r tîm mewn mannau cyfyng, timau argyfwng a goruchwylwyr

23. gweithdrefnau ar gyfer paratoi offer a chyfarpar, eu harchwilio a'u defnyddio
24. sut i gau pwyntiau mynediad a'u gwneud yn ddiogel
25. systemau adrodd ar gyfer gweithgareddau gwaith arferol ac anarferol a sefyllfaoedd argyfwng
26. gwybodaeth berthnasol i'w rhoi i dimau achub
27. sut mae systemau awyru'n gweithio a'u manteision a'u hanfanteision mewn mannau cyfyng

Rheoli mynediad a threfniadau ar gyfer mannau cyfyng

Datblygwyd gan	Energy & Utility Skills
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Energy & Utility Skills
RCU gwreiddiol	EUSCS04
Galwedigaethau perthnasol	Peirianegol a thechnolegau gweithgynhyrchu; Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig
Cyfres/Set	Mannau Cyfyng
Geiriau Allweddol	Man cyfyng; risg uchel; risg ganolig; risg isel; risg benodol; rheolaeth; person wrth y llyw; dyn wrth y llyw; cynorthwy-ydd diogelwch; mynediad; allanfa; diogelwch; cyfarpar mynediad; monitro amodau; parhau i gyfathrebu; argyfyngau; seinio'r larwm